

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS  
FAWRTH 9FED O FAI 2017 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Dewi Roberts (Cadeirydd), Clwyd Thomas, Iona Jones, Siân Davies, Arwel Jones, Mike Denman, Wyn Wilkinson, Ian Hession, Cynghorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Brynle Lloyd.

2. CROESO.

Croesawyd yr aelodau newydd i'r cyfarfod cyntaf y Cyngor, sef, Arwel Jones, Iona Jones ac Wyn Wilkinson.

3. CWBLHAU FFURFLENNI.

Cwblhawyd yr aelodau'r ffurflenni "Datganiad Derbyn Swydd" a "Cofrestr o Ddiddordebau Aelodau".

4. PENODI CADEIRYDD AM Y TYMOR 2017/18.

Etholwyd y Cynghorydd Dewi Roberts yng Nghadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2017/18.

5. PENODI IS-GADEIRYDD AM Y TYMOR 2017/18.

Etholwyd y Cynghorydd Ian Hession yn Is-gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2017/18.

6. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 14eg o Fawrth 2017 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

7. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd gwybodaeth gan y Cynghorydd i'r Ddinbych Merfyn Parry fod yr "Diffibriliwr" wedi ei osod ar wal y Drovers yn Rhewl erbyn hyn a'i fod yn trefnu hyfforddiant i'r gymuned ddefnyddio'r offer.

B. Rhoddwyd y Clerc gopi o'r cytundeb "Adran 106" sydd yn bodoli ar stad Rhyd-y-Byll yn Rhewl i bob aelod y Cyngor.

8. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £7,762.00.

B. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r Precept am y flwyddyn 2017/18 - £2,975.00.

C. Derbyniwyd gwybodaeth fod cyfrifon y Cyngor wedi ei chwblhau gan y Clerc am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2017 a derbyniwyd adroddiad glan gan yr Archwiliwr Mewnol y Cyngor, Sef Simon Murray-Williams i Gwmni Harold Smith o Lanelwy.

Arwyddwyd y Cadeirydd a'r Clerc y cyfrifon ac mi fydd y wybodaeth yn cael ei anfon i Archwilwyr Allanol y Cyngor, sef BDO o Southampton.

D. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2017 - £400.00.

2. PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2017 - £100.00.

3. Ad-daliad llun copïo i'r Clerc - £70.84.

4. Harold Smith - Archwilwyr Mewnol - £144.00.

5. Cennin Ltd. – Chostau'r Wefan y Cyngor - £83.86.

6. AON UK Limited – Yswiriant Blynyddol - £791.58.

## 9. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Codi to dros iard casglu gwartheg presennol i ffurfio parlwr godro yn Bachymbyd Fawr, Llanrhaeadr.
2. Codi adeilad storio amaethyddol yn Clwydfro, Rhewl.
3. Amrywio amod rhif 8 o ganiatâd cynllunio 23/2005/1080 i ganiatáu i'r anecs nain i gael ei ddefnyddio fel llety gwyliau (cais ol-weithredol) yn Cysgod-y-Coed, From Heulog, Llanrhaeadr.

B. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Codi estyniad i'r annedd yn The Lodge, Rhewl.
2. Adeiladu storfa gardd ar wahân, gweithdy a storfa ym Mhlas Isa', Rhewl.
3. Gwaith i goed o fewn Grŵp G1 Gorchymyn Diogelu Coed 1991 yn 8 Denbigh Road, Rhewl.
4. Creu mynediad fferm newydd yn Bod Ynys, Rhewl (derbyniwyd datgan diddordeb ynglŷn ar gais gan y Cyngorydd Dewi Roberts).

## 10. GOHEBIAETH.

A. Cynrychiolaeth Cyfarfodydd Pwyllgor Rhanbarthol Un Llais Cymru – etholwyd y Cyngorydd Mike Denman fel cynrychiolydd y Cyngor.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

## 11. UNRHYW FATER ARALL.

Penderfynwyd y Clerc ofyn i'r Cyngor Sir Ddinbych am fap o'r "Llwybrau Cyhoeddus" yn y gymuned.

12. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Nos Fawrth 11eg o Orffennaf 2017 yn Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 o'r gloch.